Hawdd ei Ddeall

ARWAIN CYMRU O'R NEWYDD

# Maniffesto Plaid Cymru 2026

## Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydyn ni'n ennill Etholiad y Senedd 2026



Plaid Cymru

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o: **Maniffesto Plaid Cymru 2026**.




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Plaid Cymru**. Darganfyddwch fwy ar ein gwefan:

www.plaid.cymru

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Ein prif nodau ........ 5

Arwain Cymru ........ 8

Iechyd, gofal a llesiant ........ 10

Busnesau a swyddi ........ 13

Trafnidiaeth ........ 17

Gofal plant ac addysg ........ 19

Hinsawdd a natur ........ 24

Tai a chynllunio ........ 29

Trin pobl yn deg ........ 31

Diwylliant, chwaraeon a’r Gymraeg ........ 35

# Amdanom ni

Plaid Cymru

Plaid Cymru ydyn ni Dyma ein maniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026.





Mae ein maniffesto yn esbonio beth fyddwn ni'n ei wneud os ydyn ni'n ennill yr etholiad.




Mae'n rhannu ein nodau ar gyfer Cymru a beth rydyn ni am ei newid.



Mae'r ddogfen yma yn esbonio rhai o'r prif bethau rydyn ni am eu gwneud.



[Rydych chi'n gallu darllen ein maniffesto llawn am fwy o fanylion.]

# Ein prif nodau

## Iechyd a gofal



Rydyn ni eisiau i bobl gael help gan feddygon ac ysbytai yn gyflymach.




Mae gennym ni gynllun clir i leihau rhestrau aros. Rydyn ni'n gwybod faint o arian rydyn ni ei angen ar gyfer y cynllun yma.

## Gofal plant



Rydyn ni eisiau helpu teuluoedd i ofalu am blant ifanc.



Fe fyddwn ni'n gwneud cynnig gofal plant newydd i blant rhwng 9 mis a 4 oed.

## Swyddi ac arian



Fe fyddwn ni'n creu swyddi da.




Fe fyddwn ni'n cefnogi busnesau i dyfu. A chefnogi busnesau Cymru drwy wario arian y llywodraeth gyda nhw.

## Ysgolion a dysgu



Fe fyddwn ni'n gwella'r cynllun ar gyfer beth sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion. Fe fyddwn ni'n dechrau cynllun newydd ar gyfer darllen, ysgrifennu a gweithio gyda rhifau.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan bob ysgol gynradd lyfrgell erbyn 2030.



Fe fyddwn ni’n cefnogi athrawon newydd ac yn helpu i gadw athrawon profiadol.

## Tlodi plant




Does gan rai teuluoedd ddim digon o arian ar gyfer anghenion dyddiol. Rydym eisiau helpu gan ddefnyddio syniadau rydyn ni’n gwybod sydd yn gweithio’n dda.



Fe fyddwn ni’n  profi cynllun newyddd i roi £10 bob wythnos i deuluoedd gyda phlant 0 i 6 oed sydd yn cael Credyd Chynhwysol.

# Arwain Cymru

**Fe fyddwn ni’n:**




Gofyn am yr arian sy’n ddyledus i Gymru o brosiectau rheilffyrdd yn Lloegr fel HS2. Fe gafodd arian Cymreig ei wario tuag at y prosiectau yma, ond wnaeth Cymru ddim elwa ohonyn nhw.



Newid rheolau annheg am faint o arian mae Cymru’n ei gael gan Lywodraeth y DU.



Gofyn am fwy o reolaeth dros drethi.




Gweithio i roi Cymru yn gyfrifol am ei llysoedd a’i heddlu ei hun.



Addysgu plant am wleidyddiaeth a newyddion mewn ysgolion.



Creu Comisiwn Cenedlaethol i Gymru. Fe fydd yn grŵp i gynllunio dyfodol Cymru yn ofalus. Fe fydd y grŵp yma yn:



- Siarad â phobl am beth mae nhw eisiau yng Nghymru.



- Ymchwilio i wleidyddiaeth, arian, swyddi a busnes.




- Paratoi adroddiad ynghylch a ddylai Cymru fod yn annibynnol.



Gweithio gyda gwledydd eraill yn Ewrop.

# Iechyd, gofal a llesiant



Mae gennym ni gynllun mawr i ofalu am ein GIG.



Fe fyddwn ni'n:

Gwella gwasanaethau meddygon teulu. Llogi hyd at 100 o feddygon teulu newydd.



Cael a chadw mwy o ddeintyddion yng Nghymru.



Gwario mwy ar dechnoleg i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal.




Gwneud 10 canolfan lle mae pobl yn gallu cael llawdriniaethau yn gyflymach.



Helpu staff yn eu swyddi a gwneud gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn well.



Cefnogi myfyrwyr sy'n hyfforddi i weithio ym maes gofal iechyd.



Casglu a rhannu gwell gwybodaeth am sut mae gwasanaethau yn gwneud.



Helpu iechyd a gofal cymdeithasol i weithio'n dda gyda'i gilydd.



Cefnogi gofalwyr di-dâl gyda hyfforddiant a chymorth ychwanegol gydag arian a chostau byw.




Canolbwyntio ar stopio salwch yn gynnar. Cadw pobl yn iach trwy wella problemau tai, addysg ac arian.



Ei gwneud hi'n haws cael help ar gyfer iechyd meddwl, dim gwahaniaeth lle rydych chi'n gofyn.



Helpu mwy ar deuluoedd ar ôl i rywun farw.




Dod o hyd i ganserau yn gynharach gyda phrofion gwell. Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gwasanaethau canser da.



Gwella gofal dementia. Mae dementia yn gyflwr sy'n effeithio ar y cof a'r meddwl.

# Busnesau a swyddi



**Fe fyddwn ni'n:**

Helpu busnesau i wneud yn dda yng Nghymru a chefnogi busnesau Cymru, drwy bethau fel:



- Gostwng treth busnes ar y stryd fawr.



- Gwario mwy o arian y llywodraeth gyda busnesau Cymru. Gallai hyn greu dros 35 mil o swyddi.

Banc

Gwella Banc Datblygu Cymru – banc sydd wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i helpu busnesau i dyfu.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ei arian yn cefnogi swyddi diogel, cyflog teg ac amodau gwaith da.



Edrych ar ba sgiliau sydd eu hangen ar bobl ar gyfer swyddi ar draws Cymru.



Rhoi gwell cyngor gyrfaoedd.



Helpu pobl ifanc i ddeall eu dewisiadau ar ôl 16 oed.



Helpu ysgolion, colegau a chyflogwyr i weithio gyda'i gilydd.



Helpu gweithwyr i ddysgu sgiliau cyfrifiadurol a thechnoleg.



Gwneud yn siŵr bod gan bob cartref a busnes rhyngrwyd band eang cyflym iawn.



Gwneud cynllun ar gyfer sut mae bwyd yn cael ei dyfu a'i gyflenwi. Fe fydd hyn yn:



- Helpu busnesau ffermio a bwyd.



- Helpu i wneud yn siŵr bod digon o fwyd i bawb.



Cefnogi twristiaeth yng Nghymru, annog pobl i ymweld am wyliau a diwrnodau allan.



Gwneud yn siŵr bod twristiaeth yn dda i Gymru. Gweithio gyda chynghorau i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio arian o dwristiaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus.




Gwneud deddf i helpu cymunedau i brynu adeiladau a busnesau lleol. Fel tafarndai, siopau a chaffis.

# Trafnidiaeth

**Fe fyddwn ni’n:**



Mynnu y dylai Cymru fod yn rheoli’r penderfyniadau am drenau.



Gwneud trenau’n haws i bawb eu defnyddio.



Cael mwy o drenau a rhedeg trenau yn amlach.



Cadw tocynnau am ddim i bobl dros 60 oed a phobl anabl.



Gwneud amseroedd bysiau a threnau i gysylltu’n well.



Gwneud yn siŵr bod bysiau'n mynd i ysgolion, gweithleoedd a gwasanaethau iechyd.



Creu llwybrau diogel a hawdd eu defnyddio ar gyfer cerdded, olwynio a beicio.



Gwella cefnogaeth i geir a faniau trydan ac ychwanegu mwy o bwyntiau gwefru.

# Gofal plant ac addysg



Fe fyddwn ni'n:

Cynnig gofal plant newydd i blant rhwng 9 mis a 4 oed.



Cadw'r 30 awr ar gyfer plant 3 oed ble mae eu rhieni mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant.




Cefnogi gofal plant yn Gymraeg.




Creu cynllun newydd am ddarllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau. Fe fydd y cynllun yn:

- Gosod nodau ar gyfer ysgolion a dysgwyr.
- Edrych sut mae plant yn gwneud a rhoi help ychwanegol i'r rhai sydd ei angen.



Gwneud yn siŵr bod gan bob ysgol gynradd lyfrgell, fel bod pob plentyn yn gallu mwynhau straeon a llyfrau.



Dysgu darllen ym mhob pwnc yn yr ysgol uwchradd.



Rhoi mwy o gymorth i ddisgyblion sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.



Rhoi prydau ysgol am ddim i blant ysgol uwchradd. Fe fyddwn ni'n dechrau gyda theuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol.




Rhoi arweiniad clir ar beth y dylai plant ei ddysgu.



Gwneud swyddi addysgu yn fwy hyblyg gyda gwell cyflog.



Rhoi arian i athrawon dan hyfforddiant mewn pynciau fel mathemateg a chyfrifiadura.



Helpu ysgolion, iechyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau ieuenctid i weithio gyda'i gilydd. Cefnogi plant sy'n colli'r ysgol.



Gwneud y system Anghenion Dysgu Ychwanegol yn symlach. Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn meddwl bod angen help ychwanegol i ddysgu.



Hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gwella diogelwch mewn ysgolion. Fe fyddwn ni'n:



- Dilyn yr holl gyngor.



- Gwrando ar blant.




- Creu rheolau cenedlaethol mae'n rhaid i bawb eu dilyn.



- Hyfforddi athrawon i adnabod problemau'n gynnar.



Helpu pobl ifanc i ddysgu'r sgiliau mae nhw eu hangen ar gyfer gwaith neu astudio.



Helpu oedolion i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer gwaith.



Edrych ar sut mae colegau a phrifysgolion yn gweithio yng Nghymru. Dod o hyd i ffordd i'w cadw wedi'u hariannu am amser hir.



Annog pobl ifanc i astudio a gweithio yng Nghymru.

# Hinsawdd a natur

Fe fyddwn ni'n:



Gwneud Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur newydd i:



- Lleihau nwyon niweidiol yn yr aer.



- Cefnogi prosiectau ynni lleol a chreu swyddi sy'n helpu'r amgylchedd.



- Gwneud trafnidiaeth yn well i'r blaned a natur.



Cefnogi gwneud ynni o wynt, dŵr a'r haul.




Ceisio cael rhagor o bwer i Gymru i reoli ein dŵr, lleihau llygredd a helpu pobl i dalu llai am eu dŵr.



Creu grŵp i weld bod cwmnïau dŵr yn deg ac yn ddiogel.



Creu grŵp i gynllunio sut mae cymunedau yn gallu delio gyda llifogydd. Sefydlu canolfannau cymorth llifogydd lleol.



Gwneud hen domenni glo yn ddiogel. Mae tomenni glo yn bentyrrau o ddarnau o lo a cherrig heb eu defnyddio o fwyngloddio.



Creu cynllun i lanhau tir llygredig.



Defnyddio natur i helpu i lanhau'r tir.



Stopio lapio plastig ar ffrwythau a llysiau ffres.



Rhoi cyllid hirdymor ar gyfer ffermio.



Helpu ffermwyr i blannu mwy o goed a gwrychoedd.



Cadw rheolau cryf i stopio anifeiliaid neu gnydau rhag mynd yn sâl.



Stopio prosiectau mawr rhag cymryd gormod o dir fferm.



Cefnogi siopau i werthu bwyd Cymreig. Helpu cymunedau i gael bwyd lleol.



Addysgu coginio iach mewn ysgolion ac edrych i weld bod prydau ysgol yn dda.



Defnyddio mwy o goed sy'n tyfu'n naturiol yng Nghymru. Ychwanegu mwy o goed mewn parciau ac ardaloedd cyhoeddus.



Gwneud cynllun i amddiffyn anifeiliaid.



Cael rheolau llymach ar gyfer perchnogion cŵn peryglus.



Ei gwneud hi'n haws i rentwyr gael anifeiliaid anwes.



Helpu i werthu pysgod i wledydd eraill.



Ariannu busnesau sy'n dal pysgod mewn ffyrdd sy'n diogelu'r amgylchedd.



Gwarchod planhigion môr a thyfu ffermio gwymon.

# Tai a chynllunio

**Fe fyddwn ni’n:**



Adeiladu o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn 2030, cartrefi mae pobl yn eu rhentu am gost is.



Defnyddio cartrefi gwag i bobl sydd eu hangen.



Mynd i’r afael â digartrefedd.



Creu grŵp o’r enw Unnos i helpu gyda thai. Fe fyddwn ni’n:

- Dod o hyd i dir ar gyfer cartrefi.
- Rheoli prosiectau tai.
- Gwneud yn siŵr bod tai cymdeithasol yn dilyn y rheolau.




Stopio landlordiaid rhag gofyn i bobl sy’n rhentu eu cartrefi adael heb reswm.



Gwneud yn siŵr bod cost rhent yn deg.



Trwsio lleithder a llwydni.



Cefnogi newidiadau i gartrefi fel bod pobl hŷn yn gallu byw’n ddiogel yn eu cartrefi.



Helpu pobl i ddefnyddio ffyrdd glanach a rhatach o wresogi eu cartrefi.

# Trin pobl yn deg

**Fe fyddwn ni'n:**




Gwneud cynllun newydd, clir ar gyfer rhoi terfyn ar dlodi plant.

Gwneud budd-daliadau Cymreig yn well, fel:




- Help i dalu'r dreth gyngor.
- Prydau ysgol am ddim.
- Talebau ar gyfer bwyd iach.



Dim ond gweithio gyda sefydliadau sy'n trin gweithwyr yn dda. Mae hyn yn meddwl y dylen nhw:

- Talu digon o arian i weithwyr fyw arno.
- Gwrando ar weithwyr.
- Peidio â chael swyddi heb oriau penodol.




Gwneud deddf newydd i amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru.



Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn trin pobl yn deg. Cael pobl sydd â phrofiad go iawn i helpu i ddylunio a gwirio gwasanaethau.



Helpu menywod i gael swyddi ar gyflog uwch a chefnogi mwy o fenywod mewn gwleidyddiaeth.



Gwella'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+. A gwneud yn siŵr bod ysgolion yn ddiogel ac yn groesawgar i bobl ifanc LHDTQ+.



Mae LHDTQ + yn meddwl grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill. Mae hon yn gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.



Gwneud i bobl sy'n dod i Gymru deimlo'n ddiogel ac yn groesawgar. Stopio gwybodaeth anghywir am bobl sydd angen diogelwch ac sy'n gofyn am fyw yng Nghymru.




Cael gwared ar bethau sy'n stopio pobl anabl rhag ymuno a gwneud penderfyniadau.



Gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn haws i'w defnyddio i bobl niwrowahanol. Pobl mae eu hymennydd yn gweithio'n wahanol. Fel pobl awtistig, pobl ag ADHD a chyflyrau tebyg.




Ei gwneud hi'n gyflymach i gael prawf am awtistiaeth neu ADHD.



Helpu pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu i fyw'n ddiogel ger eu cartref.




Gweithio i roi rheolaeth i Gymru o'n system gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys pethau fel ein heddlu, ein llysoedd a'n carchardai.

Pan fyddwn ni'n gyfrifol am gyfiawnder yng Nghymru, fe fyddwn ni'n:



- Canolbwyntio fwy ar helpu pobl i newid, llai ar eu cosbi.



- Cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol.



- Rhoi cymorth a chefnogaeth gynnar fel nad ydy pobl yn torri'r gyfraith.

# Diwylliant, chwaraeon a'r Gymraeg



Mae diwylliant yn meddwl pethau fel celf, cerddoriaeth, iaith, hanes a thraddodiadau.

**Fe fyddwn ni'n:**



Cadw Amgueddfeydd Cenedlaethol yn rhad ac am ddim i ymweld â nhw.



Cefnogi mynediad am ddim i wyliau Eisteddfod i deuluoedd sydd â llai o arian. Gwyliau cerddoriaeth, dawns a diwylliant Cymreig ydy'r rhain.



Cefnogi gwersi cerddoriaeth i blant rhwng 3 a 16 oed.



Helpu busnesau creadigol yng Nghymru, fel y rhai ym maes y cyfryngau, y celfyddydau a gwaith digidol.



Defnyddio chwaraeon a diwylliant i helpu pobl gyda'u hiechyd a'u llesiant.



Cael plant yn fwy egnïol mewn ysgolion.




Cefnogi timau chwaraeon lleol a chenedlaethol.



Helpu Cymru i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr.



Cael mwy o leoedd gofal plant Cymraeg.




Anelu i gael hanner yr holl ddysgwyr i gael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn meddwl y bydd plant yn dysgu Cymraeg.



Gwneud dysgu Cymraeg yn rhan o hyfforddiant i athrawon newydd.




Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio’r Gymraeg i gael iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ffôn, fideo ac ar-lein.

ARWAIN CYMRU O'R NEWYDD

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.



Photosymbols®
Publisher Licence 403527247